Cerdyn myfyriwr

Merch ifanc yn cael trawsblaniad calon ar y funud olaf

Cafodd Sally Slater drawsblaniad calon pan oedd ddim ond yn chwech oed. Cyn hynny, roedd wedi mynd yn sâl â firws ac fe waethygodd yn gyflym. Aeth ei mam, Bridget, â Sally i'r ysbyty lle diagnosiwyd bod ganddi'r firws Coxsackie B, sy'n debyg i'r ffurf facteriol o lid yr ymennydd, ac a oedd yn effeithio ar gyhyrau calon Sally.

Parhaodd iechyd Sally i waethygu a dywedwyd wrth ei rhieni bod angen trawsblaniad calon arni. Penderfynon nhw fynd at y cyhoedd a gwneud apêl am roddwr calon, gan geisio codi'r ymwybyddiaeth o sefyllfa Sally yn y gobaith y byddai mwy o bobl yn ystyried rhoi organ i'w helpu hi, ac eraill tebyg iddi. Roeddynt bron iawn a cholli gobaith ac roeddynt yn paratoi i ffarwelio â'u merch pan gafwyd bod organ ar gael.

Cymerodd y llawdriniaeth i roi calon newydd i Sally saith awr. Yn ystod y cyfnod hwn defnyddiwyd tua wyth peint o waed - sydd yn gyfwerth â 10 rhodd gwaed. Bu'r llawdriniaeth yn llwyddiannus, a bu Sally gartref yng Ngogledd Swydd Gaerefrog yn gwella am ddim ond chwe wythnos cyn mynd yn ôl i'r ysgol.

Erbyn hyn mae Sally'n ferch hapus, iach yn ei harddeagau.

Gallwch ddarllen mwy o storïau gwir ar:
www.giveandletlive.co.uk

NHS
Gwaed a Thrawsblaniadau

Ffeil ffeithiau

1. Dim ond tair awr oed oedd y babi ieuengaf erioed i dderbyn calon newydd. Ganwyd y babi yn yr Unol Daleithiau ac erbyn heddiw mae'n berson iach, 18 oed.

2. Yn y DU, creodd Kaylee Davidson hanes meddygol pan ddaeth yn dderbynnydd trawsblaniad calon ieuengaf y wlad yn bum mis oed. Yn awr mae bron yn 21, ac mae'n mwynhau ei bywyd i'r eithaf.

3. Gellir defnyddio'r galon gyfan, neu gellir trawsblannu gwahanol rannau ohoni, megis y falfiau, ar wahân.

Trafodaethau byw

Dewiswch un neu fwy o'r datganiadau canlynol i'w trafod fel grŵp. Ysgrifennwch y ddadl dros ac yn erbyn y datganiadau a phenderfynwch ar ba ochr yr ydych chi. A yw pob aelod o'ch grŵp yn cytuno?

- "Ni ddylid rhoi trawsblaniad calon i lofrudd a gafwyd yn euog pan fod ei hangen ar berson sy'n parchu'r gyfraith hefyd."
- "Dim ond pobl sy'n llofnodi contract yn cytuno i fyw yn iach ddylai gael trawsblaniadau."
- "Gan fod prinder organau ni ddylech gael trawsblaniad oni bai eich bod wedi rhoi eich enw ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG sy'n dangos y byddech chwithau yn fodlon rhoi eich organau eich hun hefyd."

Rhoi eich hun yn eu hesgidiau nhw

- Ysgrifennwch neges i Sally gan ei chyd-ddisgyblion yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty.
- Roedd rhieni Sally'n daer am gael hyd i roddwr calon er mwyn arbed bywyd eu merch. Gwnaethon nhw apêl gyhoeddus. Beth ydych chi'n meddwl ddywedon nhw?
- Rhowch eich hun yn y 'sedd boeth' yn y senario hwn: mae rhywun sy'n gwrthwynebu rhoi organau wedi siarad yn gyhoeddus ynghylch 'anfoesoldeb' mynd ag organau i'w trawsblannu oddi wrth fabanod ifanc iawn. Eich gwaith chi fel Prif Weithredwr ysbyty yw llunio gwrthddadl.